
# Synthesis y Dystiolaeth Pontio Teg: Crynodeb Gweithredol

Yn Cymru Sero Net[1] (2021), roedd Llywodraeth Cymru yn ailddatgan ei hymrwymiad i sicrhau 'pontio teg' oddi wrth economi tanwydd ffosil y gorffennol i ddyfodol carbon isel newydd. Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gais am Dystiolaeth er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu llwybr datgarboneiddio Cymru tuag at Sero Net erbyn 2050, a'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Pontio Teg ar gyfer Cymru. Nod y Cais hwn oedd casglu tystiolaeth a gwybodaeth gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys busnesau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, asiantaethau'r llywodraeth, arbenigwyr yn y diwydiant, cynrychiolwyr cymunedol, a chyrff allweddol eraill. Ffocws y Cais oedd cael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r llywodraethu, y cymorth, yr effeithiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â Phontio Teg i economi Sero Net yng Nghymru.


Comisiynwyd Ipsos gan Lywodraeth Cymru – gan weithio gyda Sarah Toy, Prifysgol Caerfaddon – i gynnal synthesis o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y Cais, ac mae'r canlyniadau wedi'u nodi yn yr adroddiad. Cyflwynwyd 117 o ymatebion i'r Cais gan 108 o sefydliadau, yn darparu amrywiaeth o safbwyntiau, tystiolaeth y gellir ei dilysu, a phrofiadau bywyd. Daeth y rhain gan gymysgedd o fathau o sefydliadau, gyda chynrychiolaeth eang ar draws y gwahanol sectorau allyriadau. Roedd rhai cyfyngiadau i ganfyddiadau'r Cais. Dim ond cynrychiolaeth o'r rhai a gyflwynodd ymatebion yw'r canfyddiadau ac nid ydynt yn cynrychioli adolygiad systematig o'r holl lywodraethu, cymorth, ac effeithiau a chyfleoedd ar gyfer Pontio Teg i Sero Net yng Nghymru.

**Ffigur 1: Yr ymatebwyr i'r cais am dystiolaeth – Cyfran y mathau o sefydliadau**




[1]Llywodraeth Cymru, Ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel Cymru Gyfan (2021-2025)

**Ffigur 2: Yr ymatebwyr i'r cais am dystiolaeth – Cyfran y sectorau sefydliadol**




Cafodd y dystiolaeth a gyflwynwyd ei chategoreiddio yn erbyn y themâu a’r cwestiynau allweddol a nodwyd yn y cais: llywodraethu, effeithiau a chyfleoedd yn ôl sector allyriadau, a chymorth.

## Llywodraethu

Roedd y dystiolaeth yn tynnu sylw at sut mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol** yn darparu fframwaith ar gyfer Pontio Teg a ffordd o lywio’r broses o bontio’n ymarferol. Roedd yr ymatebion yn nodi ei bod yn hanfodol gwneud penderfyniadau hirdymor sy’n ystyried yr effeithiau anghymesur posibl ar wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol. Nodwyd hefyd fod angen cydweithio rhwng y sector cyhoeddus, busnesau a chymunedau er mwyn gwneud penderfyniadau, gan roi pwyslais ar gydweithio, cydraddoldeb a dylanwad lleol. Ystyriwyd bod asesiadau effaith, gan werthuso polisïau yn erbyn deddfau a dyletswyddau perthnasol, yn fuddiol o ran galluogi tegwch. Roedd yr ymatebion hefyd yn nodi sut mae **Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** yn cefnogi Pontio Teg, gan nodi pwysigrwydd gweithredu a chydweithio'n gadarnhaol gyda gweithlu amrywiol i sicrhau canlyniadau teg.

## Effeithiau a Chyfleoedd ar gyfer Sectorau Allyriadau

O ran **cynhyrchu trydan a gwres**, roedd yr ymatebion yn canolbwyntio’n bennaf ar dechnolegau newydd fel Dal, Defnyddio a Storio Carbon, ffermydd gwynt, a hydrogen. Nodwyd bod colli swyddi yn y diwydiant olew a nwy yn destun pryder, ond tynnwyd sylw hefyd at greu swyddi yn y sector ynni glân. Roedd yr ymatebion yn hyrwyddo cyfleoedd i fenywod mewn technolegau ynni newydd, ond hefyd yn nodi eu bod yn cael eu tangynrychioli, sy’n golygu bod angen cymorth i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng y rhywiau. Roedd manteision cymunedol ffermydd gwynt yn cael eu hystyried yn gyfle ar gyfer Pontio Teg. Ystyriwyd bod pontio i Sero Net yn y sector ynni yn gyfle i sicrhau hunangynhaliaeth, diogelwch a sefydlogrwydd ynni, ond roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at yr angen am fuddsoddiad sylweddol.

Yn y sector **trafnidiaeth**, ystyriwyd bod creu swyddi yn yr economi werdd yn ganlyniad cadarnhaol posibl, ond bod angen mynd i’r afael â phrinder sgiliau. Roedd tlodi trafnidiaeth, heriau o ran fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau trydan, a hygyrchedd a fforddiadwyedd i bobl hŷn ac

anabl yn ystyriaethau pwysig. Ar ben hynny, nodwyd bod diffyg seilwaith gwefru cerbydau trydan ac effeithiau posibl ar y grid yn heriau. Ystyriwyd bod datgarboneiddio’r system trafnidiaeth gyhoeddus drwy drydaneiddio’r rheilffyrdd yn her, a nodwyd bod angen gwella trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy a chynaliadwy mewn ardaloedd gwledig. Tynnwyd sylw hefyd at effeithlonrwydd tanwydd a datblygiadau technolegol tuag at danwyddau allyriadau is.

Yn y sector **adeiladau preswyl**, roedd yr ymatebion yn rhagweld cynnydd mewn swyddi yn y diwydiant gwyrdd, gyda gweithlu medrus yn angenrheidiol. Byddai angen gwneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni ledled Cymru, a byddai'r costau hynny'n uchel. Gallai ôl-osod cartrefi, yn enwedig inswleiddio, gyfrannu rhywfaint at fynd i’r afael â thlodi tanwydd. Nodwyd fforddiadwyedd ar gyfer grwpiau agored i niwed, gan gynnwys pobl hŷn a phobl anabl, a mynd i’r afael â’r gagendor digidol a diffyg sgiliau technolegol ymysg pobl hŷn. Roedd rhaglenni ymwybyddiaeth, addysg a newid ymddygiad yn cael eu hystyried yn hanfodol.

**Diwydiant a busnes**. Gallai’r newid i Sero Net greu cyfleoedd swyddi, yn enwedig ym meysydd gweithgynhyrchu a datblygu technolegau ‘gwyrdd’. Roedd ffocws ar newid tanwydd i danwydd carbon isel ac arbedion effeithlonrwydd, a’r angen am gefnogaeth eang i fusnesau bach a chanolig. Ochr yn ochr â’r potensial ar gyfer twf economaidd, nodwyd yr angen i uwchsgilio ym meysydd gweithgynhyrchu, adeiladu, y proffesiwn trydanol, plymio, gwresogi, awyru, rheoli prosiectau a gweinyddu.

Ym maes **amaethyddiaeth**, roedd yr ymatebion yn nodi bod arferion ffermio carbon isel yn gallu creu swyddi gwyrdd ac arwain at newidiadau sylweddol o ran defnydd tir ac effeithlonrwydd ynni. Mae’r effaith yn mynd y tu hwnt i’r gweithlu amaethyddol yn unig a gall effeithio ar gymunedau gwledig, iaith a diwylliant. Codwyd pryderon ynghylch yr effaith negyddol ar ffermydd bach a chanolig, a grwpiau demograffig – gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, menywod a phobl ifanc. Gallai symud oddi wrth ffermio da byw hefyd gyflwyno heriau i’r economi cynhyrchu ac allforio bwyd bresennol. Nododd yr ymatebion fod newid dewisiadau o ran deiet yn her sy’n gofyn am gyfathrebu effeithiol ac ymyriadau wedi’u targedu.

O ran **coedwigaeth a defnydd tir**, nododd yr ymatebion y gallai cynyddu'r gorchudd coetir beri risgiau i ffermio yng Nghymru a heriau economaidd-gymdeithasol i gymunedau gwledig. Nododd yr ymatebion fod angen cyfleoedd gwaith ac uwchsgilio ym maes coedwigaeth a rheoli tir. Nodwyd ffactorau economaidd tymor byr a’r trefniadau cyllido presennol fel rhwystrau rhag cyflawni targedau plannu coed ar ffermydd.

Yn y sector **gwastraff a'r economi gylchol**, tynnwyd sylw at gyfleoedd gwaith a'r gwahaniaethau rhwng y rhywiau. Tynnwyd sylw at fesurau i leihau allyriadau, gan gynnwys rheoli gwastraff bwyd yn effeithiol, cryfhau’r berthynas rhwng defnyddwyr a ffermwyr mewn systemau bwyd lleol, a defnyddio biomas gwastraff mewn ffordd arloesol.

Yn y **sector cyhoeddus**, nododd yr ymatebion y gall caffael cyhoeddus gymell busnesau i fabwysiadu arferion sy’n gyfeillgar i’r amgylchedd, gyda busnesau bach a chanolig yn elwa’n sylweddol. Roedd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn cael ei hystyried yn bwysig o ran sicrhau Pontio Teg a chysoni polisïau lleol â nodau Sero Net byd-eang. Roedd ymatebion yn nodi bod awdurdodau lleol yn chwarae rôl allweddol o ran hyrwyddo cynaliadwyedd, drwy leihau eu hallyriadau eu hunain a thrwy arwain yn eu cymunedau.

## Cymorth

Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at yr angen am roi pwyslais ar ddatblygu **sgiliau** i gyflawni Sero Net, gan nad yw’r lefelau sgiliau presennol yn cyd-fynd â’r gofynion a ragwelir. Gellir mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau hwn drwy ddefnyddio sgiliau trosglwyddadwy, gwneud y gorau o adnoddau addysgol, a chyflwyno

rolau newydd yn yr economi werdd. Rhaid ystyried gwahaniaethau rhwng y rhywiau hefyd er mwyn sicrhau cynhwysiant a chefnogaeth i fenywod yn ystod y cyfnod pontio. Hefyd, roedd yr ymatebion yn dadlau fod pontio i Sero Net yn golygu bod angen newid **prosesau caffael cyhoeddus**, a bod angen arian a chyllid wedi'i dargedu i sicrhau pontio teg ar draws gwahanol sectorau, gan gynnwys busnesau bach. Mae cymorth ariannol, newidiadau i seilwaith, seilwaith cymdeithasol a gwasanaethau cymorth yn hanfodol er mwyn sicrhau pontio teg i bob grŵp, gan gynnwys y rheini sydd ar incwm isel. Yn olaf, ystyriwyd bod cyfranogiad dinasyddion a chyfiawnder gweithdrefnol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y broses o bontio i Sero Net yn gyfiawn ac yn deg.

## Casgliadau ac Argymhellion

Yn gyffredinol, mae'r ymatebion yn nodi set glir o gyfleoedd a bygythiadau ar gyfer pob maes, ac mae creu a cholli swyddi, datblygu economaidd, iechyd, a bregusrwydd yn feysydd sy'n peri pryder mawr. Roedd yr ymatebion yn nodi y bydd datgarboneiddio'r sectorau trafnidiaeth, diwydiant, ynni, cynhyrchu gwres ac amaethyddiaeth yn debygol o arwain at golli a chreu swyddi. Mae effeithiau'r pontio yn mynd y tu hwnt i swyddi a datblygiad economaidd teg, gan effeithio ar gymunedau, iaith a diwylliant. Ystyriwyd bod datblygu seilwaith cymdeithasol a datblygu sgiliau, gan gynnwys cau'r bwlch sgiliau ac uwchsgilio'r gweithlu, yn ffactorau galluogi allweddol ar gyfer Pontio Teg.

Roedd yr ymatebion yn nodi bod angen ymyrraeth a chymorth gan y sector cyhoeddus i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol ar gymunedau agored i niwed a bod hyn yn gallu sicrhau nad yw'r rheini sy'n wynebu tlodi digidol a thlodi o ran tanwydd, trafnidiaeth a bwyd yn cael eu rhoi dan fwy o anfantais oherwydd y pontio. Roedd cyfiawnder gweithdrefnol yn thema gyffredin yn yr ymatebion, gan bwysleisio'r angen am gydweithio rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, yn ogystal â chymunedau, i alluogi Pontio Teg. Argymhellir dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau, gyda llywodraethu tryloyw, hyblyg a chynhwysol, ac mae'r cyd-destun polisi, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn cael eu hystyried yn gefnogol ond mae angen eu datblygu ymhellach i gefnogi'r pontio.

Mae wyth argymhelliad yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad, i helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei llwybr datgarboneiddio tuag at Sero Net yn 2050 a'i Fframwaith Pontio Teg. Dyma nhw:

1. Dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar sut mae'n cyfathrebu ynghylch y broses Pontio Teg i sicrhau bod gan y rheini sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau, busnesau, cymunedau, gweithwyr ac unigolion ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae hyn yn ei olygu, sut y gall effeithio arnynt a sut y gallant ddylanwadu ar ganlyniadau cadarnhaol a manteisio ar gyfleoedd. Mae tîm y prosiect yn awgrymu bod defnyddio'r gair 'tegwch' yn gallu bod yn fwy effeithiol na 'cyfiawnder' mewn rhai achosion.
2. Mae angen mwy o allgymorth ac ymgysylltu er mwyn meithrin cysylltiad ag awdurdodau lleol ac ennyn eu diddordeb oherwydd diffyg gwelededd yn y Cais hwn. Mae'n debygol y bydd llawer o enghreifftiau o arferion da y mae angen eu harddangos yn well er mwyn codi ymwybyddiaeth o'u cyfraniadau i'r broses Pontio Teg.
3. Cafodd y Cais gyfradd ymateb ardderchog gan y diwydiant a busnesau. Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar yr ymgysylltu hwn i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd posibl i gydweithio a meithrin perchnogaeth bellach o'r broses Pontio Teg gan y sector preifat. Mae angen gwneud mwy o ymdrech i ymgysylltu â rhanddeiliaid ym meysydd trafnidiaeth a gwastraff/yr economi gylchol.
4. Dylid meddwl am y ffordd orau o ymgysylltu â grwpiau cymunedol, gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl ifanc a chymunedau dros dro, a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'n debygol y

bydd angen dulliau gwahanol fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth drwy astudiaethau achos a straeon am brofiadau bywyd.

5. Mae ymatebion cadarnhaol ynghylch creu swyddi yn gyfle i gyfathrebu'n gadarnhaol ynghylch y broses Pontio Teg gan ymgysylltu â sectorau ehangach o gymdeithas a'r economi ac annog mwy o ymrwymiad i'r newid i Sero Net.
6. Dylai Llywodraeth Cymru nodi cyfleoedd i ddatblygu prosiectau ymchwil â ffocws gyda sefydliadau academaidd sydd wedi gwneud llawer o waith sylfaenol ar sut beth yw Pontio Teg i helpu i lywio'r Fframwaith Pontio Teg.
7. Mae'r canfyddiadau yn amlygu effeithiau ar gyfer grwpiau penodol, diwydiant, busnesau bach a chanolig ac amaethyddiaeth a dylid ymchwilio'n fanylach i'r rhain drwy drafodaethau ac archwiliadau penodol gyda rhanddeiliaid perthnasol.
8. Dylid cynnal ymchwiliadau pellach mewn perthynas â'r bylchau a ganfuwyd mewn tystiolaeth (fel iechyd a llesiant, pobl ifanc, trafnidiaeth, economi gylchol, rôl awdurdodau lleol) gan gynnwys ymgysylltu â chyrff perthnasol i ganfod a oes diffyg tystiolaeth gwirioneddol yn y meysydd hyn sy'n gofyn am ymchwil ychwanegol neu a oes tystiolaeth ar gael nad oedd wedi'i darparu fel rhan o'r Cais.

# Ein safonau a'n hachrediadau

Mae safonau ac achrediadau Ipsos yn rhoi tawelwch meddwl i'n cleientiaid y gallant bob amser ddibynnu arnom i sicrhau canfyddiadau dibynadwy a chynaliadwy. Mae ein ffocws ar ansawdd a gwelliant parhaus yn golygu ein bod wedi gwreiddio dull gweithredu "cywir y tro cyntaf" ar draws ein sefydliad.

### ISO 20252

Dyma'r safon benodol ryngwladol ar gyfer ymchwil i'r farchnad, barn a'r cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys gwybodaeth a dadansoddi data. Ipsos yn y DU oedd y cwmni cyntaf yn y byd i ennill yr achrediad hwn.

### Partneriaeth Cwmnïau'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad (MRS)

Drwy fod yn Bartner Cwmni Cymdeithas Ymchwil i'r Farchnad, mae Ipsos UK yn cymeradwyo ac yn cefnogi gwerthoedd brand craidd MRS, sef proffesiynoldeb, rhagoriaeth ymchwil ac effeithiolrwydd busnes, ac yn ymrwymo i gydymffurfio â Chod Ymddygiad Cymdeithas Ymchwil i'r Farchnad ledled y sefydliad a ni oedd y cwmni cyntaf i lofnodi ein sefydliad i fodloni gofynion a hunanreoleiddio'r Cod Ymchwil i'r Farchnad; mae dros 350 o gwmnïau wedi dilyn ein harweiniad.

### ISO 9001

Safon cwmni cyffredinol rhyngwladol sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus drwy systemau rheoli ansawdd. Yn 1994, daethom yn un o'r rhai a fabwysiadodd safon fusnes ISO 9001 yn y lle cyntaf.

### ISO 27001

Safon ryngwladol ar gyfer diogelwch gwybodaeth wedi'i chynllunio i sicrhau bod mesurau diogelwch digonol a chymesur yn cael eu dewis. Ipsos UK oedd y cwmni ymchwil cyntaf yn y DU i ennill y dyfarniad hwn ym mis Awst 2008.

### Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018 y DU

Mae'n ofynnol i Ipsos UK gydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data'r DU; mae'n ymwneud â phrosesu data personol a diogelu preifatrwydd.

### HMG Cyber Essentials

Rhaglen Seiberddiogelwch Genedlaethol y DU sy'n cael ei chefnogi gan y llywodraeth, yn ogystal ag un o'r elfennau allweddol i'w cyflawni. Cafodd asesiad Ipsos UK ei ddilysu ar gyfer ardystiad yn 2016. Mae Cyber Essentials yn diffinio set o reolaethau sydd, pan gânt eu gweithredu'n briodol, yn rhoi amddiffyniad sylfaenol i sefydliadau rhag y mathau mwyaf cyffredin o fygythiad sy'n dod o'r rhyngrwyd.

### Data Teg

Mae Ipsos UK wedi cofrestru fel Cwmni 'Data Teg' drwy gytuno i lynu wrth ddeuddeg egwyddor graidd. Mae'r egwyddorion yn cefnogi ac yn ategu safonau eraill fel ISO, a gofynion deddfwriaeth Diogelu Data.

# Am ragor o wybodaeth

3 Thomas More Square
London
E1W 1YW

ffôn: +44 (0)20 3059 5000

www.ipsos.com/en-uk
http://twitter.com/IpsosUK

Gwybodaeth am Adran Materion Cyhoeddus Ipsos

Mae Adran Materion Cyhoeddus Ipsos yn gweithio'n agos gyda llywodraethau cenedlaethol, gwasanaethau cyhoeddus lleol a'r sector nid-er-elw. Mae tua 200 o staff ymchwil yn gweithio i'r adran ac maent yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a pholisïau. Mae gan bob un arbenigedd mewn rhan benodol o'r sector cyhoeddus, gan sicrhau bod gennym ddealltwriaeth fanwl o sectorau penodol a heriau polisïau. Ynghyd â'n dulliau a'n harbenigedd cyfathrebu, mae hyn yn helpu i sicrhau bod ein hymchwil yn gwneud gwahaniaeth i gymunedau, yn ogystal â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

**ISBN:** 978-1-83504-939-6